



Annwyl Rieni / Gofalwyr

Mae grŵp blwyddyn eich plentyn bellach wedi dod i ddiwedd ei gyfnod ynysu. Mae unrhyw gyfnod ynysu yn amser anodd i bawb ac estynnwn ddiolch i'r staff, y disgyblion a chi fel rhieni a gofalwyr am yr holl gefnogaeth, ymrwymiad a dealltwriaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Fe all staff a disgyblion nawr ddychwelyd i'r ysgol, ond rydym yn cydnabod bod llawer ohonoch yn bryderus ac yn poeni am ddychwelyd i'r ysgol. Rydym yn deall eich pryderon a byddwn yn cefnogi unrhyw benderfyniad gan rieni ynghylch presenoldeb yn ystod yr amser yma cyn y Nadolig.

Fel ysgol rydym yn llwyr werthfawrogi'ch cefnogaeth ac felly rydym yn cymryd eich dewisiadau personol fel rhieni a gofalwyr mewn i ystyriaeth. Canllawiau'r awdurdod lleol yw nad oes raid i ysgolion ddarparu gwaith na gweithgareddau i ddisgyblion sydd gartref oherwydd dewis rhieni os yw'r ysgol ar agor. Fodd bynnag, os bydd unrhyw riant neu ofalwr YG Bro Ogwr yn penderfynu cadw eu plentyn / plant gartref yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn cefnogi eu penderfyniad fel a ganlyn:

- Bydd gweithgareddau ar gael ar Hwb i ddisgyblion gael mynediad atynt - sy'n briodol i'w hoedran a gallant fod ar ffurf gweithgareddau penodol, rhestri chwarae, bwydlen weithgareddau neu gyfeiriad at gemau a gweithgareddau sydd ar gael ar Hwb
- Pecynnau / gweithgareddau a ddarperir yn cael eu hanfon adref neu ar gael i'w casglu
- Mae'r tasgau'n wirfoddol ac os cânt eu cyflwyno byddant yn derbyn cydnabyddiaeth gadarnhaol ond dim adborth ffurfiol gan fod staff yn ôl yn yr ystafell ddosbarth

Yn unol â'r canllawiau, ni fydd staff sy'n dychwelyd i'r ysgol yn gallu darparu sesiynau dal i fyny ar-lein a rhoi adborth i fynychwyr dosbarth a disgyblion gartref ar y cyd. Mae ein canllawiau Dysgu Cyfunol yn nodi y byddai'r ysgol yn

“estyn ei darpariaeth rhag ofn y ceir cyfyngiadau symud pellach neu os bydd grwpiau blwyddyn yn gorfod hunan-ynysu am bod prawf positif wedi cael ei gofnodi yn y grŵp cyswllt. Bydd y ddarpariaeth estynedig yn cynnwys cynnig ffrydiad byw rheolaidd i gadw mewn cysylltiad a gosod y cywair / cyflwyno'r gwaith ar gyfer y diwrnod sydd i ddod”

Felly, bydd y sesiynau mewngofnodi byw yn aildechrau ar yr 17eg a'r 18fed o Ragfyr, fel rhan o drefniadau diwedd tymor Pen-y-bont ar Ogwr.

Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, danfonwch e-bost atom i gadarnhau eich bod yn cadw eich plentyn / plant gartref i ynysu ac yna bydd yn cael ei gofnodi fel absenoldeb awdurdodedig - yn ynysu oherwydd dewis rhieni. Dilyniir ein gweithdrefnau yn ôl pob absenoldeb arall gyda galwad ffôn er mwyn egluro'r rheswm.

Fel arfer, os oes angen unrhyw gymorth arnoch, cysylltwch â'r ysgol ar admin.broogwr@bridgend.gov.uk

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Sharon Jayne

Pennaeth